**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **2 Mawrth 2023** |
| **Teitl:** | **Ymddiriedolwyr yr elusen "Gwobrau Evan Morgan"** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Cadarnhau penodiad dau Ymddiriedolwr** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |
| **Portffolio'r Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Amh** |

## 1. CEFNDIR

Ar y 5ed o Ragfyr 1983, gwnaeth y Comisiwn Elusennau Gynllun mewn perthynas â'r elusen a elwir yn Gwobrau Evan Morgan (a adwaenir hefyd yn gynharach fel Ysgoloriaethau Evan Morgan), y mae copi ohono wedi'i atodi yn Atodiad 1 o'r adroddiad hwn.

Mae'r Cynllun yn nodi bod £977.47c o'r arian a adawyd gan Evan Morgan yn ei Ewyllys yn 1926 yn cael ei ddal fel gwaddol parhaol gan yr elusen (hy: ni ellir ei wario) a defnyddio unrhyw incwm ar gyfer y canlynol:

"*Bydd yr ymddiriedolwyr yn cymhwyso incwm clir yr Elusen wrth ddyfarnu gwobrau i ddisgyblion ysgolion cynradd sir yn ardal Ceredigion, yn Sir Dyfed, sydd ar fin mynychu ysgolion uwchradd sirol yn yr ardal honno, fel cydnabyddiaeth o'u cyflawniadau academaidd y mae'n rhaid iddynt gynnwys hyfedredd yn yr ieithoedd Cymraeg a'r Saesneg a Mathemateg Elfennol."*

Mae gofyn am dri Ymddiriedolwr o dan y Cynllun. Enwir yr Ymddiriedolwr cyntaf yn Gyfarwyddwr Addysg Cyngor Sir Dyfed sydd â'i swyddogaethau statudol bellach gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion a Phrif Swyddog Addysg.

Mae'r ddau Ymddiriedolwr arall i gael eu henwebu gan y Cyngor fel Awdurdod Addysg Lleol a gall fod angen, ond nid yw'n ofynnol iddynt fod, yn aelod o'r Cyngor.

## 2. Y SEFYLLFA BRESENNOL

Yn dilyn gohebu â Rhaglen Ymddiriedolaethau Adfywiol y Comisiwn Elusennau mewn perthynas â'r elusen hon, mae swyddogion wedi adolygu'r elusen gan nad yw gwobrau wedi'u gwneud o dan y Cynllun ers 26/07/2005.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn dal £4,861.37c ar ran yr elusen sydd, minws y gwaddol parhaol, yn golygu y gellir defnyddio £3,883.90c ar gyfer gwobrau o dan delerau'r Cynllun elusennol.

Er bod gan y Cyngor Bwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau sefydledig eisoes, gall y Pwyllgor hwnnw ddim ond gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag elusennau

lle bod y Cyngor yn unig Ymddiriedolwr, ac felly nid yw'r elusen hon yn dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor hwnnw.

## 3. CAMAU NESAF

Er mwyn adfywio'r cynllun elusennol a bod mewn sefyllfa i wneud gwobrau newydd, cynigir bod y Cyngor yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a chraffu Cymunedau sy'n Dysgu Cyngor Sir Ceredigion i fod y ddau Ymddiriedolwr arall.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn elwa o'r indemniad cyffredinol a roddwyd gan y Cyngor i Aelodau a Swyddogion, ar yr amod eu bod yn gweithredu'n onest, o fewn eu pwerau ac un yr elusen, ac mewn ffydd dda.

| | | |
|---|---|---|
| | **A yw Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os, ddim, nodwch pam** | Ddim yn ofynnol |
| | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | Sicrhau penodiad Ymddiriedolwyr priodol ar ran Cyngor Sir Ceredigion i elusen Gwobrau Evan Morgan |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **Cydweithio:** | I gydweithio gydag Aelodau eraill y Cyngor, a'r SAC ar gyfer Ysgolion i sicrhau bod yr ardal gyfan yn cael ei chynrychioli |
| | **Cynnwys:** | Penderfynu ar ddyfarnu Gwobrau Evan Morgan yn briodol |
| | **Atal:** | Dim |
| | **Integreiddio:** | Gweithio gyda Swyddogion i sicrhau'r canlyniadau gorau i'n trigolion o ran dyrannu gwobrau |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad(au):** | **Cymeradwyo penodiad Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu Cyngor Sir Ceredigion fel y ddau Ymddiriedolwr dewisol i'r elusen a elwir yn Gwobrau Evan Morgan.** |
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | **Sicrhau cynrychiolaeth briodol fel Ymddiriedolwyr i'r elusen Gwobrau Evan Morgan** |
| **Trosolwg a Chraffu:** | AMH |
| **Fframwaith Polisi:** | AMH |
| **Amcanion Llesiant Corfforaethol:** | Yn cyfrannu at y blaenoriaethau Corfforaethol canlynol:<br>• Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Dim |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | Dim |
| **Goblygiadau staffio:** | Dim |
| **Goblygiadau eiddo / asedau:** | Dim |
| **Risg(au):** | Dim |
| **Pwerau Statudol:** | AMH |
| **Papurau Cefndir:** | Dim |
| **Atodiadau:** | Atodiad 1 – Cynllun 05/12/1983 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Elin Prysor<br>Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu |
| **Swyddog Adrodd:** | Louise Harries - Cyfreithiwr |
| **Dyddiad:** | 10/01/2023 |